enquiries@ashwales.co.uk
ashcymru
FFEITHIAU AC YSTADEGAU
tel: 029 2064 1101

CARTREFI DI-FWG

Peryglon mwg ail-law i blant

- ✓ Gwyddys bod mwg ail-law yn garsonigen dynol.[1]
- ✓ Mae cysylltiad plant â mwg ail-law yn gysylltiedig â niwmonia, broncitis, asthma, haint yn y glust ganol, dirywiad yng ngweithrediad yr ysgyfaint a Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod.[2]
- ✓ Mae cysylltiad hefyd rhwng mwg ail-law a diffyg presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol, a mwy o dderbyniadau i ysbytai i rai plant.[3]

Ysmygu yn y cartref

- ✓ Nid oes gan lawer o blant y pŵer personol i gwyno neu i ddianc rhag cysylltiad â mwg ail-law.[4]
- ✓ Mae cysylltiad â mwg ail-law yn gysylltiedig â diffyg gwybodaeth y rhieni am y berthynas rhwng dod i gysylltiad â mwg ail-law a pheryglon penodol i iechyd plant.[5]
- ✓ Mae gan gartrefi incwm isel lai o gyfyngiadau ar ysmygu yn y cartref.[6]
- ✓ Mae ysmygu goddefol ymysg plant yn gyfrifol am dros 300,000 o ymgynghoriadau â meddygon teulu yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn.[7]
- ✓ Mae 9,500 o blant yn cael eu derbyn i ysbytai bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig o achos ysmygu goddefol.[8]
- ✓ Mae 40 o farwolaethau o Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod bob blwyddyn yn cael eu hachosi gan ysmygu goddefol yn y Deyrnas Unedig[9]
- ✓ Yn 2007, roedd deunyddiau ysmygu'n gyfrifol am 8% o'r tannau damweiniol mewn anheddau, 12% o'r anafusion a 44% o'r marwolaethau mewn tanau o'r fath yng Nghymru[10]

---

[1] Scientific Committee on Tobacco and Health (SCOTH). Secondhand Smoke: review of evidence since 1998. Update of evidence on health effects of secondhand smoke. Llundain: Adran Iechyd, 2004.

[2] Scientific Committee on Tobacco and Health (SCOTH). Secondhand Smoke: review of evidence since 1998. Update of evidence on health effects of secondhand smoke. Llundain: Adran Iechyd, 2004.

[3] Children and secondhand smoke. Faculty of Public Health/ASH 2008. Gwelwyd ar: http://www.ash.org.uk/files/documents/ASH_687.pdf.

[4] Thomson, George; Wilson, Nick; Howden-Chapman, Philippa. 2005. Attitudes to, and knowledge of, secondhand smoke in New Zealand homes and cars. The New Zealand medical journal. 2005; 118(1213).

[5] ASH Scotland. Child exposure to second-hand smoke in the home. 2009. Gwelwyd ar: http://www.ashscotland.org.uk/ash/files/Smokinghome_Briefing_Dec09.pdf2006

[6] Phillips, R; Amos, A; Ritchie, D, et al. Smoking in the home after the smoke-free legislation in Scotland: qualitative study. BMJ 2007; 335: 553-57.

[7] Passive smoking and children. A report of the Tobacco Advisory Group of the Royal College of Physicians. Mawrth 2010.

[8] Passive smoking and children. A report of the Tobacco Advisory Group of the Royal College of Physicians. Mawrth 2010.

[9] Passive smoking and children. A report of the Tobacco Advisory Group of the Royal College of Physicians. Mawrth 2010

[10] Firebreak Wlaes. Fire safety report 2009 executive summary. Gwelwyd ar: http://www.firebrake.org/uploads/attachments/Firebrake_Wales_Fire_Safety_Report_Executive_Summary_eng.pdf

Buddion cartref di-fwg

- ✓ Mae babanod newydd eu geni'n llai tebygol o ddatblygu heintiau anadlol a Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod
- ✓ Mae plant yn llai tebygol o ddatblygu asthma, heintiau anadlol neu glust ludiog
- ✓ Bydd perygl tân yn y cartref yn cael ei leihau
- ✓ Bydd y teulu a chyfeillion yn cael eu diogelu rhag mwg ail-law
- ✓ Mae anifeiliaid anwes yn llai tebygol o ddioddef o broblemau anadlol

Rhwystrau posibl i gartref di-fwg

- ✓ Dibyniaeth ar nicotîn
- ✓ Diffyg gwybodaeth am effeithiau cartref myglyd ar iechyd
- ✓ Diffyg ffydd yn y gallu i greu cartref di-fwg
- ✓ Pryderon am ymatebion negyddol gan y teulu a chyfeillion
- ✓ Gallu cyfyngedig i symud sy'n ei gwneud yn anodd i fynd allan
- ✓ Diffyg man allanol priodol i ysmygu e.e. fflatiau
- ✓ Dymuniad i ysmygu yng nghysur a/neu breifatrwydd ei gartref ei hun
- ✓ Diffyg rheolaeth dros y sefyllfa yn y cartref
- ✓ Anawsterau sy'n gysylltiedig â goruchwylio plant

I GAEL MWY O WYBODAETH AM Y FENTER BYW'N DDI-FWG A SUT I WNEUD EICH CARTREF YN DDI-FWG CYSYLLTWCH AG ASH CYMRU: WWW.ASHWALES.CO.UK

MAE TAFLENNI A STICERI CARTREFI DI-FWG AR GAEL ODDI WRTH ASH CYMRU A CHANGEN POLISI TYBACO LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU